**ADRODDIAD AR BROFIADAU AR GWRS ISELDIREG DWYS AR-LEIN**

**RHAN 1**

**CEFNDIR**

Dw i wedi mynychu dau gwrs preswyl Iseldireg gan BLC Dutch Language / #dutchgrammar yn y gorffennol, felly roeddwn i'n gwybod o flaen llaw am safon y dysgu a'r paratoi trylwyr. Wrth glywed eu bod yn cynnig eu hysgolion haf ar-lein, penderfynodd Popeth Cymraeg fy noddi i fynychu cwrs a chodi arferion da ganddynt. Byddaf wedyn yn rhannu'r arferion da hynny efo gweddill y staff.

**STRWYTHUR**

Mae'r cwrs yn llawer dwysach na chyrsiau Cymraeg i Oedolion arferol. Y bwriad ydy mynd dros gynnwys un flwyddyn mewn naw diwrnod. Defnyddir dysgu 'fflip', gan ddisgwyl i'r myfyrwyr fynd dros y patrymau iaith yn drylwyr cyn pob gwers. Gwneir hyn drwy ddilyn fideos gramadeg gydag ymarferion i brofi dealltwriaeth a chyfres opera sebon gan y cwmni. Maen nhw'n dweud bod angen o leiaf 4 awr o waith astudio annibynnol ar gyfer pob uned, ond dw i'n gwneud o leiaf 6 awr er mwyn sicrhau dealltwriaeth.

Defnyddir llyfr a ysgrifennwyd yn bwrpasol ar gyfer y cyrsiau preswyl, sef 'Het Lesboek 1 a 2'. Mae dwy lefel yn gynwysedig ym mhob llyfr. Mae naw Uned i bob lefel, sef uned y dydd. Mae'r llyfr wedi'i gynllunio'n ofalus, yn broffesiynol ac yn lliwgar fel a ganlyn:

- Geirfa berthnasol
- Esboniadau gramadegol, sy'n seiliedig ar fideos y dylai'r dysgwyr eu gwylio o flaen llaw.
- Deialog, sy'n seiliedig ar y gyfres opera sebon 'Heb je Zin?' a ysgrifennwyd yn bwrpasol ar gyfer y cwrs. Mae iaith y ddeialog yn seiliedig ar y gwaith gramadeg
- Cwestiynau sy'n seiliedig ar y ddeialog
- Ymarferion gramadegol
- Geirfa thematig sy'n cael ei dilyn gan ymarferion sy'n seiliedig ar yr eirfa, yna darn darllen.
- Gwaith cartref (nid ydynt yn gofyn i ni ei wneud, gan fod cymaint o waith gennym yn barod, ond dw i'n ei wneud, gan deimlo ei fod yn fy nghynorthwyo i feistroli'r patrymau.

Mae atebion i'r holl ymarferion yng nghefn y llyfr, yn ogystal â geirfa a chrynodeb o rediad y berfau afreolaidd.

Rhennir y diwrnod fel y ganlyn:

| | |
|---|---|
| 9.00 – 10.30 | Sesiwn grŵp ar-lein |
| 10.30 – 13.00 | Amser astudio'n annibynnol a chael cinio |
| 13.00 – 14.30 | Sesiwn grŵp ar-lein |

Does dim mwy na 12 person ym mhob dosbarth.

Y bwriad ydy cynnal cyrsiau dros bythefnos, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yna o ddydd Llun i ddydd Iau'r wythnos ganlynol, ond mae hwn yn 'Pre-Summer School' dros ddau benwythnos hir o 4 diwrnod a'r Sadwrn canlynol.

Dw i'n ffodus mai Kirsten de Gelder, awdur y cwrs ac un o'r tiwtoriaid gorau, ydy fy nhiwtor.

**CYFLWYNIADAU**

Cynhaliwyd Cyfarfod Croeso ar Zoom ddwy noson cyn cychwyn y cwrs, efo dysgwyr o bob lefel. Gofynnwyd i'r myfyrwyr newid eu henwau a rhoi eu lefel yn gyntaf, felly roeddwn i'n **3 Pegi Talfryn**. Ar ôl croeso cyffredinol rhannwyd y lefelau i 'Breakout Rooms', a hynny'n hawdd gyda'r rhifau o flaen pob enw.

**ARFERION DA**

**Deialogau**

Mae’r deialogau’n cael eu rhannu’n dair rhan bob tro, felly mae pawb yn gweithio mewn grwpiau o dri. Ynghlwm â’r deialogau mae gweithgareddau ateb cwestiynau ynglŷn â nhw. Rhydd hyn gyfle i’r dysgwyr wneud gwaith ymestynnol wrth i’r tiwtor fynd o un ystafell i’r llall.

**Taflenni Gwaith**

Mae’r tiwtor yn rhannu taflenni gwaith yn ddigidol yn feunyddiol. Ar gyfer ein cyrsiau ni, byddwn i fel arfer yn rhannu copïau caled â’r dysgwyr o flaen llaw, posib gyda lliwiau penodol ar gyfer pob diwrnod, ond wrth gwrs mae’r tiwtor yn datblygu ac addasu adnoddau wrth fynd ymlaen, gan fod hon yn sefyllfa hollol newydd.

Dyma’r rhai o’r pethau a rennir:

- Cwestiynau trafod, gydag arweiniad ynglŷn â’r patrymau y dylid eu defnyddio
- Croesair, gydag un person yn cael yr atebion i lawr a’r llall yn cael yr atebion ar draws, a’r dysgwyr yn esbonio’r atebion i’w gilydd.
- Ymarferion iaith a chystrawen
- Gwrando ar gân, gan roi’r geiriau i’r dysgwyr o flaen llaw, ond gyda chamgymeriadau. Rhaid i’r dysgwyr wrando am y camgymeriadau
- Taflen cysylltu ansoddair gydag enw. Mae un person yn cael sgwâr 4x4 gydag enwau a’r llall â sgwâr efo ansoddeiriau, ac mae angen eu cysylltu.

**Gweithgareddau Eraill**

- Tiwtor yn dangos rhestr o 10 gair sy’n berthnasol i’r wers am ddau funud. Yna mae’n rhoi un munud i’r dysgwyr gofio cymaint ohonynt ag y medrant, a’u hysgrifennu i lawr
- Defnyddio’r Bwrdd Gwyn ar gyfer ‘brainstormio’ geirfa

**Cystadlaethau**

Mae cystadlu'n ymddangos i fod yn bwysig iawn yn yr Iseldiroedd!  Defnyddir 'Kahoot' ar ddechrau pob diwrnod i adolygu geirfa ac mae'n rhyfeddol gweld y dechnoleg yn gweithio gyda phobl o bob man yn effeithiol.

Dysgwyr yn ceisio dyfalu gair o'r testun gyda phum cliw.  Roedd rhaid cysylltu â'r tiwtor efo 'direct chat' gyda'r atebion.  Os oedd rhywun yn sicr o'r gair ar ôl un cliw, roedd angen danfon neges gyda'r rhif 5+ateb.  Yna 4+ateb ar ôl yr ail gliw, ac yn y blaen.  Felly roedd y tiwtor yn cadw sgôr a'u hadio i fyny ar ôl 10 cwestiwn.

**PROBLEMAU TECHNEGOL**

Mae'n ddiddorol bod yr ochr arall o'r broses ddysgu.  Dw i'n defnyddio dwy sgrîn wrth weithio, felly pan fyddaf yn rhannu sgrîn gyda fy nysgwyr bydd yr hyn a rennir ar un sgrîn a'r stribed wynebau ar yr ochr arall.  Wrth gael tiwtor arall yn rhannu sgrîn mae'na broblemau gyda'r stribed wynebau yn cuddio'r wybodaeth sy'n cael ei dangos.  Gan fy mod i'n eitha cyfarwydd â Zoom erbyn hyn, dw i'n gwybod sut i symud yr wynebau o gwmpas, ond posib byddai hynny'n broblem efo dysgwyr llai hyderus.

Problem arall ydy rhoi pobl mewn 'Breakout Rooms' yn awtomatig.  Hyd yn hyn mae un aelod o'r dosbarth sydd heb fod mewn 'Breakout Room' efo fi, ac mae dau berson bob tro yn yr un 'Breakout Room'.  Gellid osgoi hyn drwy ofyn i'r dysgwyr yn achlysurol a oes rhywun nad ydynt wedi gweithio â nhw yn ddiweddar, neu a oes rhai dysgwyr wedi bod gyda'i gilydd yn rhy aml.

Yn bersonol byddwn i'n gofyn i'r myfyrwyr rhoi 'mute' ar eu hunain yn amlach, neu byddwn i fel tiwtor yn gwneud hynny.  Dw i'n mwynhau defnyddio 'Speaker View' pan mae'r tiwtor yn gwneud ymarferion ynganu neu'n esbonio rhywbeth, ond pan mae pawb yn siarad mae'r olygfa yn gwibio o un person i'r llall, felly dw i ddim yn elwa o hynny.

**CLORIANNU AR ÔL Y 4 DIWRNOD CYNTAF**

**Amserlen**

Dw i'n meddwl bod yr amserlen yn gweithio'n effeithiol iawn.  Roedd pethau ar eu gorau ar y diwrnod olaf, pan gyflwynodd y tiwtor batrwm gramadegol, yna rhoi gwaith i'r dysgwyr ei wneud yn ystod y toriad, a mynd drosto wedyn.

**Cymharu â chwrs preswyl**

Wrth reswm, nid oes modd cymdeithasu’r un fath â mewn dosbarth go-iawn. Er gwaethaf hyn, teimlaf ein bod wedi bondio fel grŵp, ac mae pawb yn gefnogol i’w gilydd. Un peth mawr sydd ar goll ydy’r gallu i drafod y gwaith rhwng y gwersi.

Ond y peth sy’n fy nharo fwyaf ydy’r diffyg adrenalin. Pan mae person ar gwrs preswyl mae’r adrenalin yn llifo ac yn eich cynnal. Y tro hwn, dw i’n gwneud yr un faint o waith, ond heb adrenalin. Felly mae’n hynod o flinedig a dw i wedi llwyr ymlâdd ar ddiwedd y dydd. Mae angen i ni ystyried hynny wrth i ni ddysgu.

Ond ar yr ochr bositif, dw i wedi dysgu andros o lot yn barod, ac yn teimlo bod fy nealltwriaeth o’r iaith, a’m gallu i’w defnyddio, wedi cynyddu’n sylweddol yn barod. Dw i ddim yn teimlo fy mod ar fy ngholled yn addysgiadol a dw i’n cael hen ddigon o amser i gyfathrebu a dysgu yn yr iaith darged.

Dw i’n edrych ymlaen at y sesiynau nesaf.